

## CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER LLYGOD PENGRWN Y DŴR

### Cyflwyniad

Cnofil bychan lled-ddyfrwl yw llygoden bengron y dŵr (*Arvicola terrestris*, water vole), ac mae'n byw mewn amrywiaeth o gynefinoedd dŵr croyw gan gynnwys afonydd, nentydd, ffosydd, camlesi, llynnoedd a phyllau. Gan fod llygod pengrwn y dŵr yn byw mewn tyllau, mae'n well ganddynt safleoedd sydd â thorlannau eithaf serth lle maent yn gallu cloddio eu rhwydwaith nodweddiadol o dyllau. Hefyd maent yn hoffi safleoedd lle mae toreth o lystyfiant ar y glannau, gan olygu bod digonedd o fwyd i'r llysfwytawyr hyn ynghyd â manau i lochesu rhag ysglyfaethwyr. Arferai'r rhywogaeth fod yn gyffredin ond bu lleihad trychinebus o ran y niferoedd yn ddiweddar, a hynny'n bennaf oherwydd colli cynefinoedd ac oherwydd ei bod yn ysglyfaeth i finc, sef creadur estron a gyflwynwyd o'r America.



Er bod dosbarthiad llygod pengrwn y dŵr yn Sir Gaerfyrddin yn arfer bod yn fwy eang o lawer, mae dosbarthiad y rhywogaeth yn hynod o leol erbyn hyn. Ar wastadeddau Llanelli, gan gynnwys Canolfan Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir ym Mhenclacwydd, y mae'r prif boblogaethau - yn wir mae'r ardal wedi ei dynodi'n un o'r 15 'Prif Safle' ar gyfer llygod pengrwn y dŵr ym Mhrydain. Hefyd mae poblogaeth sylweddol arall yng nghyffiniau Lacharn - Pentywyn. Mae'n bosibl fod poblogaethau bychain ac ynysig yn dal i fod mewn cynefinoedd addas mewn manau eraill. Efallai fod modd gwella'r systemau ffosydd ym mhen isaf Cwm Gwendraeth ar gyfer y rhywogaeth hon. Yn ddiweddar cafwyd cofnod newydd ar dir uchel ger Ffarmers. Mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn gwybod hyd a lled y boblogaeth yn yr ardal hon.

Mae'r datblygu sy'n dal i ddigwydd o amgylch un o'r prif safleoedd yn ardal Llanelli yn fygythiad i'r mamal pwysig hwn, a bydd yr ynysu parhaus yn effeithio mewn modd andwyol ar y boblogaeth yn y cyfnod hir.

Mae'r awdurdod cynllunio lleol, fel rhan o'i gyfrifoldebau statudol/polisi, yn mynnu y cynhelir arolygon mewn perthynas â chynllunio/penderfynu ar unrhyw gynllun/prosiect a allai effeithio ar lygod pengrwn y dŵr. Dylai datblygiadau yng nghyffiniau gwastadeddau Llanelli geisio neilltuo cynefin ar gyfer llygod pengrwn y dŵr ynghyd â chynnwys darpariaeth ddigonol o ran lliniaru/digolledu/gwella mewn perthynas ag unrhyw gais cynllunio a allai effeithio ar gynefinoedd llygod pengrwn y dŵr.

### Datganiad o Weledigaeth ac Amcanion

Mae angen cael ymagwedd ar raddfa tirwedd, sy'n cwmpasu llawer o wahanol bartneriaid, er mwyn gwarchod llygod pengrwn y dŵr yn y cyfnod hir. Un o'r prif amcanion ar gyfer llygod pengrwn y dŵr yw gwella a chreu cynefinoedd addas er mwyn ailsefydlu'r cysylltiadau ar hyd y gorlifdiroedd arfordirol, ac adfer poblogaethau llygod pengrwn y dŵr yn yr ardaloedd hynny. Mae angen cynnal arolygon er mwyn cael gwybod a oes poblogaethau eraill yn y sir nad ydynt wedi eu cofnodi hyd yn hyn. Bydd unrhyw gamau gweithredu yn ceisio cyflawni un neu ragor o'r amcanion canlynol:

- WV1** Cynnal a chynyddu maint y boblogaeth a'i dosbarthiad yn Sir Gaerfyrddin
- WV2** Casglu data ynghylch dosbarthiad a statws llygod pengrwn y dŵr yn Sir Gaerfyrddin
- WV3** Cynyddu ymwybyddiaeth o lygod pengrwn y dŵr yn Sir Gaerfyrddin a rhoi cynghylch rheoli cynefinoedd ar eu cyfer

**Crynodeb o'r camau gweithredu a gyflawnwyd gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk) neu ewch i wefan y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth - <http://ukbars.defra.gov.uk>:**

### **2010–12**

- Gwnaed gwaith rheoli ar safle Morfa Berwig sy'n gynefin i lygod pengrwn y dŵr - Cyngor Sir Gaerfyrddin / Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir WV1
- Gwnaed gwaith ar safle Morfa Berwig, sy'n gynefin i lygod pengrwn y dŵr, er mwyn creu pyllau ac er mwyn rheoli'r ffosydd - Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru WV1
- Cynhaliwyd arolwg o ansawdd cynefinoedd llygod pengrwn y dŵr ar wastadeddau Llanelli‡ - Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru / Cyngor Sir Gaerfyrddin WV2
- Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant ar gyfer swyddogion Gwasanaethau Stryd / Amddiffyn rhag Llifogydd / Rheoli Plâu Cyngor Sir Gaerfyrddin – Cyngor Sir Gaerfyrddin / Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru WV3
- Cyhoeddwyd erthyglau yn y wasg leol ynghylch llygod pengrwn y dŵr yn ardal Llanelli – Cyngor Sir Gaerfyrddin WV3
- Penderfynwyd bod arolygon/mesurau lliniaru yn ofynnol ar gyfer ceisiadau a allai effeithio ar gynefinoedd llygod pengrwn y dŵr – Cyngor Sir Gaerfyrddin WV4

### **2013**

- Trapio mincod yng nghyffiniau Pen-bre a Pharc Arfordirol y Mileniwm – Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor Sir Gaerfyrddin / Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru WV1
- Cyllid gan y Gronfa Ecosystemau Gwydn wedi dod i law i gyflogi swyddog llygod pengrwn y dŵr am 12 mis ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Cheredigion - Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru WV1
- Prosiect trapio llygod pengrwn y dŵr ifanc sydd dan bwysau ar gyfer rhaglen fagu - Llanelli - Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin WV1
- Penderfynwyd bod arolygon/mesurau lliniaru yn ofynnol ar gyfer ceisiadau a allai effeithio ar gynefinoedd llygod pengrwn y dŵr – Cyngor Sir Gaerfyrddin WV4

### **2014**

- Cynhaliwyd prosiect rhyddhau yng Ngwarchodfa Natur Fferm y Ffrwd, Pen-bre. Ym mis Awst 2014 rhyddhawyd rhyw 200 o lygod pengrwn y dŵr oedd wedi eu magu mewn caethiwed – Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), YNDGC, Cyngor Sir Gaerfyrddin (CSC), Gwirfoddolwyr.

### **2015**

- Ail gam rhyddhau llygod y dŵr yn Fferm Ffrwd ac yn ardal Pen-bre – CNC/WTSWW WV1
- Rheoli cynefinoedd a rheoli'r minc yn ardal Pen-bre – CNC/BASC/WTSWW WV1
- Ymchwiliad i chwilio am lygod y dŵr ar dir sy'n berchen i CSC ger WWT – canfuwyd arwyddion WV2

- Cwrdd â Dŵr Cymru i weld a oes posibilrwydd o wella cynefin llygod y dŵr drwy eu prosiect GlawLif yn ardal y Bynea – CSC WV1/3
- Gofyn cynnal arolygon / gwaith lliniaru yn achos ceisiadau a allai effeithio ar gynefin llygod y dŵr – CSC
- Monitro llygod y dŵr yn WWT – Safle Allweddol Cenedlaethol WV2

### **Camau arfaethedig i'r dyfodol**

- Cynllun rheoli ar gyfer safle Llygod y Dŵr ym Morfa Berwig – CNC/CSC WV1
- Ymchwiliad i gynefin addas o amgylch Ffarmers er mwyn cael cofnodion pellach o lygod y dŵr WV2
- Sesiynau hyfforddiant ar gyfer swyddogion Gwasanaethau Stryd / Rheoli Llifogydd / Rheoli Pla CSC – CSC/CNC WV3

### **Y camau arfaethedig yn y dyfodol**

- Llundio cynllun rheoli ar gyfer safle Morfa Berwig sy'n gynefin i lygod pengrwn y dŵr – Cyngor Sir Caerfyrddin WV1
- Gwella/creu cynefinoedd ar gyfer llygod pengrwn y dŵr ym Mharc Arfordirol y Mileniwm – Cyngor Sir Caerfyrddin / Cyfoeth Naturiol Cymru WV1
- Cyfarfod â Dŵr Cymru i weld a oes modd gwella cynefinoedd i lygod pengrwn y dŵr drwy waith y cwmni yn Llanelli – Cyngor Sir Caerfyrddin WV1/3
- Archwilio cynefinoedd addas yng nghyffiniau Ffarmers er mwyn crynhoi rhagor o gofnodion ynghylch llygod pengrwn y dŵr WV2
- Sesiynau hyfforddiant ar gyfer swyddogion Gwasanaethau Stryd / Rheoli Llifogydd / Rheoli Pla CSC – CSC/CNC

### **Deddfwriaeth**


Mae gwneud y canlynol yn drosedd o dan Adran 9 o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981:

- Lladd, anafu neu gymryd (dal) llygoden bengron y dŵr yn fwriadol;
- Meddu ar lygoden bengron y dŵr neu ei rheoli, boed yn fyw neu'n farw, neu unrhyw ran o lygoden bengron y dŵr neu unrhyw beth sy'n deillio o lygoden bengron y dŵr;
- Difrodi neu ddiestrio unrhyw adeiladwaith neu le y mae llygoden y dŵr yn ei ddefnyddio'n gysgodfa neu'n warchodfa, neu rwystro mynediad i'r cyfryw, boed yn fwriadol neu'n ddi-hid;
- Tarfu, yn fwriadol neu'n ddi-hid, ar lygoden bengron y dŵr sydd mewn adeiladwaith neu le y mae'n ei ddefnyddio'n gysgodfa neu'n warchodfa;
- Gwerthu, cynnig gwerthu, rhoi ar werth neu gludo er mwyn ei gwerthu unrhyw lygoden bengron y dŵr, boed yn fyw neu'n farw, neu unrhyw ran o lygoden bengron y dŵr neu unrhyw beth sy'n deillio o lygoden bengron y dŵr;
- Cyhoeddi unrhyw hysbyseb, neu beri i unrhyw hysbyseb gael ei chyhoeddi, sy'n debygol o roi ar ddeall bod rhywun yn prynu neu'n gwerthu neu'n bwriadu prynu neu werthu unrhyw un o'r pethau uchod.

### **Dolenni defnyddiol**

- Yr Ymddiriedolaethau Natur – [Dŵr](#)

*Llygoden bengron y dŵr yw Ratty, sef prif gymeriad The Wind in the Willows gan Kenneth Graeme, ac arferai llygod pengrwn y dŵr fod ymhlith ein mamaliaid mwyaf cyfarwydd. Yn ogystal maent yn greaduriaid amlwg yn ein llên gwerin ers canrifoedd lawer.*



Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Sir Gaerfyrddin  
Carmarthenshire **Biodiversity** Partnership

[www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk](http://www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk)

[Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin](#) Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin yn cynnwys y sefydliadau canlynol: [Cyngor Sir Caerfyrddin](#), [Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru](#), [Cyfoeth Naturiol Cymru](#), [Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar](#), [Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir](#), [Clwb Adar Sir Gaerfyrddin](#), [Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru](#), [Gwarchod Glöynnod Byw](#), [Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin](#), [Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#), [Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain](#), [Naturiaethwyr Llanelli](#), [Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod](#), [Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru](#), [Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid](#)